

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion Cyfarfod 12 o Mai 2015 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
YN BRESENNOL		
Ken Brown	Mair Bebb Jones	
Lena Ashley	Nerys John	
Iestyn Harris	Daniel Williams	
George Smith	Louise Hughes	
Pat Jones		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD	
1.1	Croesawodd y Cynghorydd Ken Brown Cadeirydd y Cyngor yr aelodau i gyfarfod mis Mai. Ymddiheuriadau: Sian Gwenllian, Sarah Riley.	
2.0	DATGAN DIDDORDEB	
2.1	Dim	
3.0	COFNODION	
3.1	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 14 a 21 Ebrill 2015. Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd fel rhai cywir a'u harwyddo.	
4.0	MATERION YN CODI	
4.1	Kronos – Dim gwybodaeth pellach i'w gyhoeddi.	
5.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD	
5.1	Adroddodd Y Cynghorydd Daniel Williams ar faterion diweddaraf y neuadd ynglyn a'r llawr a'r cyfnod arfaethedig pan fyddai y gwaith yn cael ei wneud. Y Cynghorydd Daniel Williams i gadw'r cyngor yn hysbys.	DW
5.2	Dywedodd y Cadeirydd bydd angen gwneud gwaith cynnal a chadw ar y y gwaith paent o fewn y neuadd a gyda caniatad y Cyngor byddai yn cysylltu a Mr Jackson i ymafael a'r gwaith.	KB
6.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL	
6.1	Cadarnhawyd gwariant Mis Ebrill.	
6.2	Derbyniwyd y cyfrifon am y flwyddyn ariannol 2014 – 2015, fe'i mabwysiadwyd ar ol yr archwiliad mewnol ac fe arwyddwyd adran 3 o'r Adroddiad Blynnyddol gan y Cadeirydd Ken Brown.	Swyddog Ariannol
6.3	Penderfynwyd symud arian o'r cyfrif cyfredol i'r cyfrif llog uchel er mwyn dod a'r cyfanswm i £15K.	Swyddog Ariannol
7.0	GOHEBIAETH	
7.1	Yr Arolygaeth Gynllunio – Gwybodaeth yn unig bod yr ymchwiliad cyhoeddus wedi ei ganslo.	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

7.2	Canllawiau Statudol ar Fynediad at wybodaeth – Gwybodaeth yn unig.	
7.3	Cyfarwyddyd diwygiedig ar y Cod Ymddygiad – Gwybodaeth yn unig	
7.4	The Pensions Regulator – Gwybodaeth yn unig	
7.5	Roedd y Cadeirydd wedi derbyn gwybodaeth ynglyn a Men’s Shed gan Mr. Glyn Lancaster Jones – roedd rhai wedi eu codi ym Mlaenau Ffestiniog a bod grantiau i’w cael. Penderfynwyd bod y Cyngor yn gefnogol i’r syniad mewn egwyddor.	KB
8.0	ADRODDIAD Y CLOC	
8.1	Rhodddwyd gwybodaeth bod y prisiau tendro wedi cael eu harchwilio o ran cywirdeb a’r ddogfen manylebau y pensaer. Penderfynwyd ar dendr Q Williams. Y Clerc i rhoi gwybodaeth i’r pensaer.	CLERC
9.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
9.1	C15/0416/20/AM – cais amlinellol gyda rhai materion eu cadw yn ol i godi 14 tŷ newydd, creu mynedfa gerbydol newydd a ffordd stad, creu rhandiroedd gyda mynedfa a pharcio cysylltiol – tir yn ffordd GLan y Môr – GWRTHWYNEBIAD – Y Cyngor yn pwysleisio nad ydynt am weld unrhyw ddatblygiad ar y tir gwyrdd hwn ynghyd a bod y tir tu allan if fin datblygu’r pentre yn unol ar cynllun datblygu.	
10.0	ADRODDIAD IS BWYLLGOR Y FYNWENT	
	Dim i’w adrodd	
11.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH	
11.1	Y Cynghorydd Ken Brown yn datgan ei fod wedi siarad a Peter Simpson ynglyn a’r safle a’i fod angen cysylltu a phensaer y tirwedd.	KB
11.2	Adroddwyd unwaith eto bod tyllau ffordd wedi ymddangos ar Ffordd Tafarngrisiau a Dinas. Y Clerc i anfon at yr Gyngor Gwynedd.	CLERC
12.0	ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU	
12.1	Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Nerys John bod gwaith ymchwil taglen teithiau llwybrau cyhoeddus y pentref wedi ei gwblhau bellach a bod drafft y daflen wedi ei pharatoi gan Gareth Roberts. Gobeithir bydd y daflen yn barod i’w lansio yn Mis Gorffennaf.	
12.2	Diolchwyd yn gyhoeddus i’r gwirfoddolwyr a fu yn casglu sbwriel o gwmpas y pentref. Gwnaethpwyd sylwad bod “Fly tipping” mewn	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	rhannau o'r pentref. Bydd ardal Arfon o mis Hydref yn derbyn gwasanaeth casglu binau pob 3 wythnos ac efallai bydd y broblem yma'n cynyddu. Cafwydd sylwad arall ei wneud mai rhan fwyaf o'r sbwriel oedd eitemau ailgylchu sydd yn cael eu chwythu.	
12.3	Adroddwyd bod llwybrau yn y marina a'r cei ar lan y dwr wedi eu cau oherwydd bod digwyddiad wedi cymryd lle. Pwysleiswyd nad llwybrau cyhoeddus mo honnynt. Roedd y mater yma yn derbyn sylw y Cynghorydd Sir; penderfynwyd aros hyd nes bydd y Cynghorydd yn gallu hysbysu'r cyngor o'r mater cyn trafod y mater yn bellach.	
13.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
	Gweler Atodiad 1	
14.0	CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL	
14.1	Y mater yn dal i dderbyn sylw gan y Clwb Hwyllo.	
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 09:00 yn yr hwyr.	
Llofnod:		Dyddiad: